

# Agorwch y ffenestr

## Pam y mae angen i Lywodraeth Cymru fuddsoddi mewn awyru ar gyfer Ystad GIG Cymru



Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod COVID-19 yn cael ei ledaenu drwy gael ei drosglwyddo trwy'r awyr, cysylltiad agos trwy ddefnynnau ac arwynebau. Mae trosglwyddo trwy'r awyr yn ffordd arwyddocaol iawn i'r feirws gylchredeg.[1][2] Mae tystiolaeth sy'n awgrymu bod lledaeniad COVID-19 yn uwch mewn mannau lle ceir awyru gwael.

Mae angen addasu a newid ein hamgylcheddau gofal iechyd mewnol er mwyn lleihau effaith COVID-19 a chlefydau eraill a drosglwyddir drwy'r awyr. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu systemau ar gyfer lleoliadau addysg i wella awyru a monitro ansawdd aer[3]. Mae angen i Lywodraeth Cymru ymrwymo yn awr i wneud hyn ar gyfer lleoliadau iechyd.

---

[1] Coronafeirws: how to stay safe and help prevent the spread - GOV.UK (www.gov.uk)
[2] https://llyw.cymru/diogelu-cymru-gydan-gilydd
[3] https://llyw.cymru/dechrau-newydd-i-dymor-newydd-gyda-buddsoddiad-i-helpu-i-wella-ansawdd-yr-aer-mewn-ysgolion-colegau



Bydd y ddogfen hon yn canolbwyntio ar awyru o fewn ystad y GIG. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod awyru mewn lleoliadau gofal cymdeithasol yr un mor bwysig ac mae angen buddsoddi a gweithredu.

**Argymhellion ar gyfer Llywodraeth Cymru**

1. Sefydlu cynllun buddsoddi hirdymor ar gyfer gwella awyru ar draws ystad y GIG. Fel cam cychwynnol, dylai hyn gynnwys asesu ansawdd aer presennol drwy'r cyllid dros dro ar gyfer monitorau CO2.
2. Buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol yng Nghymru i gefnogi'r gwaith o ddiweddaru'r ystad a chefnogi gwaith atal a rheoli heintiau.

**Beth yw awyru a pham y mae'n bwysig?**

Awyru yw'r broses o ddisodli hen aer ag awyr iach. Gellir gwneud hyn yn naturiol, drwy agor ffenestr, neu'n fecanyddol, drwy system awyru gan ddefnyddio gwyntyllau a dwythellau.

Defnyddir awyru mewn lleoliadau iechyd a gofal i ddarparu amgylchedd diogel a chyfforddus i gleifion. Darperir awyru mwy arbenigol i helpu i leihau'r risg o heintio drwy'r awyr mewn lleoliadau fel adrannau llawdriniaethau, cyfleusterau gofal critigol, ystafelloedd ynysu ac ardaloedd triniaeth sylfaenol i gleifion.[4]

Mae adeiladau gofal iechyd yn cael eu defnyddio gan gleifion a staff yn barhaus ac mewn modd dwys ac oherwydd natur arbenigol y cyfleusterau gall fod yn anodd iawn darparu'r gwasanaeth mewn mannau eraill.

Mae awyru'n bwysig wrth reoli lledaeniad clefydau drwy'r awyr, megis COVID-19. Gan fod SARS-CoV-2 (y feirws sy'n achosi COVID-19) yn berygl biolegol Grŵp 3, mae cyflogwyr y GIG yn atebol o dan gyfraith iechyd a diogelwch, yn benodol Rheoli Sylweddau Peryglus i iechyd (COSHH) i asesu a rheoli'r risg o gysylltiad ymhlith staff gofal iechyd. Mae'r RCN wedi datblygu pecyn cymorth Asesu Risg i gefnogi cyflogwyr a staff i reoli'r risg o COVID-19 yn y gweithle.[5]

Gan ei fod yn bathogen a drosglwyddir drwy'r awyr, mae risg o haint hefyd i gleifion, ac os caiff cleifion eu heintio o ganlyniad uniongyrchol i ofal, caiff ei ddosbarthu fel haint sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

[4] https://www.england.nhs.uk/wp-content/uploads/2021/05/HTM0301-PartA-accessible-F6.pdf
[5] https://www.rcn.org.uk/clinical-topics/infection-prevention-and-control/covid-19-workplace-risk-assessment-toolkit



Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod pwysigrwydd awyru fel un agwedd ar reoli risg heintiau a drosglwyddir drwy'r awyr

## Beth yw'r system awyru bresennol?

Mae gan lawer o adeiladau'r GIG gynteddau cul, ystafelloedd bach a ffenestri na ellir eu hagor, sy'n dileu'r posibilrwydd o awyru naturiol. Felly, mae'r GIG yn dibynnu ar awyru mecanyddol ac os yw'n bresennol mae'n bosibl nad yw wedi'i ddiweddaru ers nifer o flynyddoedd.

Mae'r Gwasanaeth Ystadau Arbenigol wedi darparu dogfen gyda chyfres o ganllawiau ar gyfer awyru a gyhoeddwyd yn ystod pandemig COVID-19.[6] Mae hon yn cynnwys yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch sydd wedi cyhoeddi canllawiau i helpu sefydliadau i nodi ardaloedd sydd wedi'u hawyru'n wael, i benderfynu ar y camau i'w cymryd i wella awyru ac i asesu'r risg o fewnanadlu gronynnau feirws (trosglwyddo trwy aerosol) mewn ardaloedd caeedig.[7]

Mae'r canllawiau yn gosod safon glir i Fyrddau Iechyd anelu ati ac maent yn cynnig cymorth i asesu a rheoli awyru. Fodd bynnag, hyd y gwyddom ni nid oes fframwaith cenedlaethol i fonitro a yw asesiadau'n cael eu cwblhau a pha gamau sy'n cael eu cymryd i wella'r sefyllfa yng Nghymru. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau ar waith i weithredu ar wybodaeth am awyru gwael a darparu buddsoddiad pe bai angen.

Er mwyn deall a yw'r systemau awyru yn ystad y GIG yn ddigonol i leihau gallu afiechydon i drosglwyddo trwy'r awyr a lleihau ansawdd aer gwael, mae'n bwysig bod data'n cael eu casglu drwy ddefnyddio monitorau CO2 yn y lle cyntaf.

## Pam y mae monitorau CO2 yn bwysig?

Mae pobl yn allanadlu carbon deuocsid (CO2) pan fyddant yn allanadlu. Gall croniad o CO2 mewn ardal fod yn arwydd o awyru gwael. Mae monitorau CO2 yn ddangoswyr drwy brocsi defnyddiol i amlygu a oes angen gwella awyru naturiol a/neu fecanyddol.




Yn 2021 buddsoddodd Llywodraeth Cymru £2.58 miliwn mewn 30,000 o fonitorau CO2 ar gyfer lleoliadau addysg i helpu i reoli systemau awyru (fel y gwelir yn y llun).

---

[6] https://nwssp.nhs.wales/ourservices/specialist-estates-services/specialist-estates-services-documents/specialist-estates-services-notifications-sesns/sesn-21-16-covid-19-and-mitigating-airborne-transmission-in-healthcare-settings-ventilation-guidance-updates/

[7] https://www.hse.gov.uk/coronavirus/equipment-and-machinery/air-conditioning-and-ventilation/index.htm



Mae gwahanol fathau o ddyfeisiau $CO_2$ cludadwy ond y mwyaf effeithiol yw monitor $CO_2$ isgoch nad yw'n gwasgaru (NDIR). Dyma'r math y mae Llywodraeth Cymru wedi'i ariannu ar gyfer lleoliadau addysg.

Yn y canllawiau ar ddefnyddio monitorau $CO_2$ mewn lleoliadau addysg mae'n egluro bod 'y *ddyletswydd yn y gyfraith [*Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974] *i gymryd camau rhesymol yn gyfrifoldeb ar y person neu'r personau sy'n gyfrifol am fangreoedd sy'n agored i'r cyhoedd ac ar y person sy'n gyfrifol am y gwaith sy'n cael ei wneud mewn unrhyw weithle; hynny yw, y person sy'n gyfrifol am reoli'r safle'.* Mae gan y rhai sy'n rheoli safleoedd (penaethiaid, prif weithredwyr, perchnogion cartrefi gofal ac ati) gyfrifoldeb i sicrhau bod lefelau da o awyru'n cael eu cynnal.

### Pam y mae nyrsys ymgynghorol yn bwysig ar gyfer gwella awyru?

Mae gan nyrsys ymgynghorol swyddi ar lefel uchel iawn. Mae eu swyddogaeth yn cwmpasu ymarfer clinigol, addysg, ymchwil ac arweinyddiaeth glinigol. Mae nyrsys ymgynghorol atal a rheoli heintiau (IPC) yn darparu gwybodaeth ac arweiniad arbenigol i fyrddau iechyd. Fel arweinwyr 'system', mae nyrsys ymgynghorol IPC yn ystyried dull cyfannol o atal heintiau, gan weithredu fel pont rhwng iechyd y cyhoedd, diogelu iechyd a gwyddoniaeth.

Byddai buddsoddi mewn nyrsys ymgynghorol IPC yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau i ddarparu gwybodaeth arbenigol ar draws systemau; byddai hefyd yn sicrhau bod gan Gymru yr adnoddau i addysgu'r genhedlaeth nesaf o weithwyr iechyd proffesiynol. Byddai'r swyddi hyn hefyd yn hwyluso rhannu arbenigedd ar lefel uwch ar draws ffiniau cenedlaethol. Byddai hyn yn codi statws nyrsio IPC a chyfraniad Cymru ato. Mae buddsoddi mewn ymgynghorwyr nyrsio IPC yn fuddsoddiad yn y system gyfan gan osod atal a rheoli heintiau yn briodol wrth wraidd iechyd a gofal cymdeithasol.

### Beth all Llywodraeth Cymru ei wneud?

Mae angen buddsoddiad ychwanegol ar Fyrddau Iechyd er mwyn gwella awyru.

Nid oes amheuaeth bod angen buddsoddiad ar ystad y GIG. Ym mis Medi 2019 adroddwyd bod angen gwerth £261 miliwn o waith cynnal a chadw ar adeiladau'r GIG i ymdrin â phroblemau yr ystyrir eu bod yn peri risg uchel neu sylweddol. Hefyd mae cyfanswm cyfunol o £560 miliwn o ôl-groniad o waith cynnal a chadw.[8]

Fodd bynnag, mae cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022/2023 wedi lleihau'r gwariant cyfalaf iechyd a gofal cymdeithasol o £381 miliwn i £335 miliwn, sef gostyngiad o £52.6 miliwn.[9] Bydd y gyllideb ddangosol ar gyfer 2023/2024 yn cynyddu'r gwariant

[8] [Ôl-groniad o £261m o waith atgyweirio brys i ysbytai ac adeiladau'r GIG - BBC News]
[9] https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-12/2022-2023-naratif-y-gyllideb-ddrafft.pdf



cyfalaf (i £375 miliwn) ond mae'n dal yn is na dyraniadau gwariant 2021/2022 (£387 miliwn). Gyda chyllideb gyfalaf sy'n crebachu, mae angen i fyrddau iechyd flaenoriaethu gwariant ar unwaith ar leoliadau lle ceir materion yr ystyrir eu bod yn peri risg sylweddol.

Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau arweiniad cenedlaethol ar awyru a chefnogi byrddau iechyd trwy ddarparu cyllid ar gyfer monitorau $CO_2$ fel cam cychwynnol. Yn dilyn hyn, ac ar ôl casglu data, rhaid i Lywodraeth Cymru nodi cynllun hirdymor i wella awyru ar draws ystad y GIG.

**Ynglŷn â'r Coleg Nyrsio Brenhinol (RCN)**

Y Coleg Nyrsio Brenhinol yw sefydliad proffesiynol ac undeb llafur mwyaf y byd ar gyfer nyrsio, yn cynrychioli dros 465,000 o nyrsys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nyrsio, gan gynnwys dros 27,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau'r RCN yn gweithio yn y sector annibynnol a'r GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau wedi'u lleoli yn y gymuned. Mae'r RCN yn sefydliad ar gyfer y DU gyfan, gyda Byrddau Cenedlaethol yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r RCN yn cynrychioli nyrsys a nyrsio, yn hyrwyddo rhagoriaeth mewn ymarfer nyrsio ac yn llunio polisi iechyd a gofal cymdeithasol.